Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Arberth

Ysgol Gynradd Arberth
Jesse Road
Arberth
Sir Benfro
SA67 7FE

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Arberth

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Arberth |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sarah Jane Martin |
| Person â gofal | Liana Dewaine a Lowri Morgan |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 2 oed i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 23 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 12 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener o 8 y bore hyd at 12:15 y prynhawn |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ar ôl cofrestriad newydd |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 09/10/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 02/12/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Defnyddio arsylwadau ac asesiadau yn fwy effeithiol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A2 Gwella cyfleoedd i blant ddysgu am eu hardal leol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan bron bob plentyn lais cryf, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau'n ddeallus wrth chwarae. Maent yn symud rhwng gwahanol weithgareddau'n hyderus ac yn dilyn eu diddordebau personol yn effeithiol. Er enghraifft, yn ystod y bore, mae'r rhan fwyaf yn dechrau dysgu'n syth yn yr ardaloedd chwarae, gyda nifer yn chwarae rôl yn y tŷ bach twt, ac eraill yn didoli a rhifo'r trenau. Maent yn sgwrsio'n hapus gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwrando arnynt yn ystod y gweithgareddau sbardunus.

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn llawn bwrlwm ac maent yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn ymdopi'n dda wrth wahanu'n ddiffwdan oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae bron bob plentyn yn hollol gyfarwydd â threfniadau'r diwrnod. Er enghraifft, mae'r plant yn gwybod bod angen golchi dwylo cyn amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau yn huawdl yn ystod amser cylch, fel esbonio tristwch am dorri esgid neu golli het.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae'r rhan fwyaf yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy aros am degan a sialc yn amyneddgar. Maent yn dangos empathi tuag eraill ac yn gofyn i ymarferwyr am deimladau cyfoedion, gan eu bod yn edrych yn drist. Mae'r rhan fwyaf yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol ag ymarferwyr a'u ffrindiau ac yn hapus i fynd at yr ymarferwyr i chwarae neu am gysur. Mae bron bob plentyn yn gwrtais wrth dderbyn eu snac a'u diod ac yn ymateb gyda 'diolch' wrth iddynt gymryd y jwg llaeth oddi wrth blentyn arall.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, ac yn chwilfrydig tra'n creu paent allan o sialc a dŵr cyn peintio'r ffens. Maent yn hyderus wrth symud o un weithgaredd i'r llall, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae'r plant wrth eu boddau yn defnyddio gefeiliau i godi peli meddal o'r dŵr a'u grwpio mewn lliwiau tebyg yn gywir, tra bod eraill yn mwynhau cwblhau jig-sos yn annibynnol.

Mae'r plant yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell ac yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth da iawn, er enghraifft wrth helpu eu hun i ffrwyth a thywallt llaeth yn ofalus. Yn ogystal, mae bron bob plentyn yn defnyddio'r tŷ bach yn hyderus, ac yn golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwarae gyda'i gilydd yn hwylus ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn cymhwyso'u medrau llafar a chymdeithasol yn effeithiol, sy'n arwain yn bwrpasol at wella eu deilliannau a'u medrau ehangach.

Mae mwyafrif y plant yn ymdrechu i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol, trwy ddilyn anogaeth ac arweiniad deallus yr ymarferwyr. Maent yn mwynhau ymuno â rhigymau cyfarwydd a'u cyd-ganu yn ystod eu sesiynau cylch, wrth olchi dwylo a rholio toes. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n ofalus ac yn gweithredu arnynt yn brydlon, er enghraifft wrth dorri ciwbiau iâ gyda morthwylion. Maent yn siarad yn naturiol â'i gilydd wrth ymgymryd â chyfnodau o chwarae creadigol estynedig. Maent yn ymateb i drafodaethau ac yn rhannu syniadau i gwblhau tasgau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n ddiwyd i osod pont ar drac trenau.

Mae llawer o blant yn trafod llyfrau'n hyderus. Maent yn ymgysylltu'n fodlon â storïau ac yn ymateb yn frwd i'w cyfoedion wrth fwynhau lluniau a digwyddiadau mewn stori. Maent yn dangos diddordeb wrth ddisgrifio cymeriadau gwahanol ac yn ystyried canlyniadau gweithredoedd yn feddylgar, er enghraifft wrth ymateb yn frwdfrydig i helyntion a theimladau draenog a'i ffrindiau.

Yn ystod eu chwarae, mae llawer yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Maent yn gwneud marciau'n fwriadus gyda chyfryngau gwahanol fel paent, sialc a chreonau. Yn ogystal, maent yn cadw nodiadau'n addas mewn llyfrynnau, wrth arbrofi gydag allweddell electronig. O ganlyniad, mae llawer yn esbonio pwrpas eu marciau'n synhwyrol ac yn dechrau deall bod ysgrifennu yn rhan annatod o fywyd go iawn.

Mae llawer o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau priodol. Mae ganddynt fedrau rhifedd da ac maent yn mwynhau arbrofi gydag ystod eang o offer mathemategol. Maent yn cyfrif yn hyderus wrth ddidoli llestri, ceir, llysiau a ffrwythau ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o briodweddau siapiau. Yn ogystal, maent yn trafod a chymharu cyfeintiau'n ddeallus tra'n llenwi bwcedi â thywod a defnyddio jygiau dŵr i symud gwrthrychau trwm ac ysgafn i lawr rhaeadr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol llwyddiannus trwy yrru beiciau ar y buarth, adeiladu tyrau a chydbwyso ar gyfarpar anturus. Maent yn mwynhau cydweithio i addasu eu syniadau, er enghraifft wrth ddefnyddio rhawiau a chribynnau i lenwi blychau. Mae'r agweddau cadarnhaol hyn yn effeithio'n dda ar eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau digidol cynnar yn effeithiol. Maent yn manteisio ar y cyfleoedd cyfoethog sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn rhannu ffôn symudol tra'n chwarae rôl, yn gwrando'n astud wrth reoli teclynnau siarad ac yn dilyn rhaglenni iaith a

rhifedd ar lechi electronig yn bwrpasol. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n dda a chymhwyso eu medrau digidol cynnar yn ystyrlon.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da ar gyfer plant. Maent yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo iechyd a lles y plant yn effeithiol ac yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Mae ymarferwyr yn sicrhau amser chwarae tu allan yn ddyddiol, ac yn rhannu negeseuon diogelwch yn ddeallus gyda'r plant wrth iddynt redeg a throsglwyddo baton ar y buarth. Mae'r ymarferwyr yn dilyn cynllun cenedlaethol cyn-ysgolion iach yn effeithlon, sy'n codi ymwybyddiaeth y plant o fwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn amser cylch ac yn cynnig cysur iddynt.

Mae ymarferwyr yn cael hyfforddiant buddiol ar ddiogelu plant, ac maent yn wybodus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Maent yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau yn briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn dda ac yn ei weithredu fel modelau rôl deallus. Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn ymateb yn dda iddynt ar lafar neu'n ddi-eiriau. Maent yn gyson wrth ganmol ymddygiad y plant, gan esbonio pam y maent yn cael canmoliaeth. Er enghraifft, pan mae'r plant yn tacluso, maent yn diolch iddynt am eu cydweithrediad. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ffurfio perthynas waith agos iawn â nhw ac maent yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. O ganlyniad, mae plant yn dilyn cyfarwyddiadau'r ymarferwyr yn gyson dda.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod plant yn gartrefol ac yn hapus, gan drafod cyfleoedd dysgu, pan fo'n briodol. Maent yn dilyn diddordebau a syniadau plant wrth gynllunio gweithgareddau'n fwriadus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd difyr i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n agos â rhieni pan mae plant newydd yn cychwyn, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hanghenion a'u hoffterau unigol. Mae prosesau effeithiol yn sicrhau bod ymarferwyr yn adnabod a chefnogi'r plant yn llwyddiannus gan gynnwys y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae dulliau addysgu ystyrlon yr ymarferwyr yn cymell y plant i gydweithio'n effeithiol, sy'n cael effaith bwrpasol ar eu dysgu a'u medrau. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu a chwarae buddiol, sy'n galluogi plant i fentro a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda. Er enghraifft, maent yn annog plant i gydweithio wrth ddefnyddio siapiau 2D i greu patrymau lliwgar.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn gelfydd yn ystod gweithgareddau gan annog plant i arbrofi'n annibynnol wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn cefnogi dealltwriaeth plant yn bwrpasol wrth gymharu nodweddion anifeiliaid y fferm a threfnu rhifau wrth gwblhau jig-sos. Mae ymarferwyr yn cynnal trafodaethau cyson â'r plant wrth iddynt chwarae. Maent yn cefnogi'r plant i gydweithio wrth drafod cynnwys a chymeriadau llyfrau penodol ac wrth ddefnyddio blociau, sbaneri a sgriwiau'n hyderus yn yr ardal adeiladu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm effeithiol, sy'n dilyn diddordebau'r plant yn dda. Maent yn ymateb yn bwrpasol i awgrymiadau'r plant yn ystod y sesiynau, er enghraifft trwy ddarparu gweithgareddau creadigol fel defnyddio glud a phaent wrth greu ac addurno torchau'r Nadolig. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod y plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau ymarferol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llafaredd plant ac yn eu holi'n dda wrth iddynt chwarae. Gwneir hyn, er enghraifft, trwy roi cyfleoedd i'r plant drafod eu teimladau yn ystod amser byrbryd ac wrth sgwrsio â'r plant wrth iddynt osod y bwrdd yn yr ardal chwarae rôl. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd pwrpasol ymysg y plant. Maent yn eu herio i dorri toes yn siapiau a'u gosod ar linellau rhif a chymharu cyfeintiau blychau yn yr ardaloedd tywod a dŵr yn effeithiol. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd cyson i wella medrau digidol cynnar y plant.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'u harsylwadau ar gyflawniadau'r plant yn foddhaol, ac mae hyn yn dechrau arwain at gynllunio'r camau nesaf yn dysgu plant unigol yn briodol. Fodd bynnag, tra'n cynllunio profiadau ar gyfer y plant, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon effeithiol i dargedu'r camau nesaf yn natblygiad medrau'r plant. Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar lafar, mewn llyfrynnau cynnydd ac ar gyfryngau cymdeithasol diogel.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i gydbwyso ar gyfarpar anturus a gyrru beiciau o gwmpas yr ardal allanol. Yn ogystal, maent yn darparu gweithgareddau bywyd go iawn bwriadus, fel cefnogi'r plant i ddyfrhau planhigion yn ofalus.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda, fel astudio hanes Santes Dwynwen, dathlu Dydd Gŵyl Dewi a chanu caneuon Cymreig. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd i hyrwyddo dealltwriaeth plant o amrywiaeth a diwylliannau eraill yn dda, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio'r ardal allanol i leihau unrhyw beryglon cyn i blant ei defnyddio. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cwblhau rhestr wirio risgiau ar gyfer pob ardal yn ddyddiol ac yn sicrhau asesiadau risg yn effeithlon. Maent yn cwblhau cofnodion dyddiol o amseroedd cyrraedd a gadael plant ac oedolion, gan gynnwys ymwelwyr yn drwyadl. Mae arweinwyr yn cynnal driliau tân rheolaidd ac maent yn cael eu cofnodi'n fanwl.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gynhwysol, ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae'r amgylchedd yn caniatáu i blant ddefnyddio'r toiledau a golchi'u dwylo'n annibynnol. Mae arweinwyr yn dilyn trefniadau cyson ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd ac mae eu harferion glanhau rheolaidd yn sicrhau hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau cadarn yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch plant yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau prif ystafell groesawgar a chyfeillgar, sy'n cynnig amgylchedd diddorol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant ddefnyddio'r gofod chwarae yn yr awyr agored i ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r gegin fwd isel yn cynnig adnoddau naturiol fel pridd, dŵr a mes ynghyd ag offer coginio iawn, sy'n hyrwyddo profiadau dysgu'r plant yn fwriadus. O ganlyniad, mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r holl ardaloedd i ddarparu gweithgareddau dysgu cyffrous, a chânt eu defnyddio'n hyderus gan y plant.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd cyfoethog sy'n cynnwys ystod eang o adnoddau diddorol ac o ansawdd uchel. Mae arddangosfeydd deniadol yn cynnwys gwaith y plant, a lluniau ohonynt yn chwarae ar y cyd, sy'n dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gyfeillgarwch ac ymddiriedaeth yn effeithiol. Mae'r trefniadau effeithiol yn galluogi plant i archwilio'n annibynnol drwy ddefnyddio dodrefn naturiol ac eitemau'r cartref, gan feithrin eu chwilfrydedd a'u dychymyg. Yn ogystal, mae'r adnoddau'n hyrwyddo dealltwriaeth o'r gymdeithas ehangach ac yn cefnogi gwerthoedd aml-ddiwylliannol yn ddeallus. O ganlyniad, mae plant yn datblygu gwybodaeth a medrau sy'n ehangu eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ac maent yn cydweithio'n dda i hyrwyddo gofal a chefnogi dysgu'r plant. Maent yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu'r ddarpariaeth ynghyd â

medrau a lles y plant yn eu gofal. O ganlyniad, mae eu harferion rheolaidd a'u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd diddorol sy'n darparu profiadau da i'r plant.

Mae arweinwyr yn darparu gofal diwyd yn ystod y sesiynau, sy'n creu ymdeimlad agos rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae'r awyrgylch gofalgar hwn yn annog plant i gydweithio'n dda a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu mewn awyrgylch glòs a chynhaliol. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r rhieni a gofalwyr am ddatblygiad a chyflawniad eu plant. Defnyddiant sesiynau agored, cyfryngau cymdeithasol diogel a llyfrynnau cynnydd yn ystyrlon i ddarparu gwybodaeth berthnasol iddynt.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n gydwybodol fel tîm ac yn sicrhau bod pawb yn mynychu hyfforddiant defnyddiol i wella'u haddysgu a'u systemau gofal. Maent yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. Mae arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau statudol, polisïau ac arferion y lleoliad yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gywir ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir. Maent yn sicrhau bod y prosesau ar gyfer goruchwylio, gwerthuso ac arfarnu gwaith a datblygiad yr holl ymarferwyr yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso defnyddiol, sy'n arwain at dargedau perthnasol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion sydd angen sylw yn dda. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu rôl y ddwy arweinydd newydd a gwella cyfleoedd i rieni drafod cynnydd eu plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â'r holl randdeiliaid i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant, ac yn gweithredu ar awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Yn sgîl hyn, maent yn llwyddo i ddarparu profiadau amrywiol i blant ddatblygu eu hannibyniaeth ac i wella eu medrau llafar tra'n edrych ar lyfrau, trafod straeon a dysgu am siapiau 2D a 3D.

Mae gan arweinwyr berthynas dda â'r ysgol ac mae hyn yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn bwrpasol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn briodol, ac maent yn defnyddio'r ardal leol yn foddhaol. Er bod ymwelwyr yn ymweld yn achlysurol â'r lleoliad, nid yw'r cyfleoedd i blant ddysgu am eu milltir sgwâr yn gwbl effeithiol, sy'n cyfyngu ar ddealltwriaeth plant o'u cynefin.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn dyrannu adnoddau'n synhwyrol. Maent yn defnyddio'r gyllideb a grantiau yn ofalus ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn ddoeth. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn ddeallus, fel deunyddiau i ddatblygu medrau creadigol a chorfforol  plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/02/2026